

Cymorth i Ysgolion

Y Gwasanaeth Seicoleg Addysg

TROSOLWG

Nod y Gwasanaeth Seicoleg Addysg yw hybu datblygiad plant, pobl ifanc, teuluoedd, ysgolion a chyrrff drwy gymhwyso seicoleg yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys eu cynorthwyo i ymdrin ag anawsterau dysgu,ymddygiad a sgiliau cymdeithasol a hyrwyddo iechyd a lles emosiynol. Bydd yn gwneud hyn drwy rymuso gweithwyr proffesiynol eraill, rhieni a gofalwyr drwy ymyrryd yn uniongyrchol.

Bydd yr awdurdod lleol yn parhau i gomisiynu gwasanaeth seicoleg addysg craidd, sy'n cynnwys gwasanaeth ataliol (gweithredu gan yr ysgol a mwy) a pharatoi adroddiadau seicolegol fel rhan o'r broses asesu statudol. Caiff gwasanaethau seicoleg addysg eu cynnig am ddim, a hynny pan fydd y plentyn yn dechrau yn yr ysgol, drwy ddyrannu amser ar sail maint yr ysgol.

Yn ôl amodau'r gwasanaeth masnachol, bydd ysgolion yn gallu prynu amser ychwanegol gan y gwasanaeth seicoleg addysg i ychwanegu at yr amser a gânt fel rhan o'r gwasanaeth craidd ar ffurf ymweliadau ag ysgolion.

BETH Y MAE'R GWASANAETH YN EI GYNNIG?

Mae'r gwasanaeth **craidd** yn cynnig:

- ymweliadau ag ysgolion;
- ymgynghori â chlystyrau drwy TAPPAS;
- sesiynau galw heibio i'r clystyrau;
- goruchwylio cynorthwywyr ELSA;
- ymgynghori â staff i ddatrys anawsterau;
- ymgynghori dros y ffôn;
- cymorth ar gyfer digwyddiadau tyngedfennol;
- asesiadau ac adolygiadau statudol.

Mae gan bob ysgol seicolegydd addysg cyswllt penodol a bydd pob ysgol yn cael nifer benodol o ymweliadau craidd bob blwyddyn, yn seiliedig ar faint yr ysgol, ynghyd ag unrhyw ddarpariaeth arbenigol ychwanegol.

Mae'r **gwasanaeth masnachol** (gwasanaeth ychwanegol y gall ysgolion ei brynu) yn cynnig:

- ymweliadau ychwanegol ag ysgolion;
- cymorth i baratoi cynlluniau a darpariaeth strategol;
- rheoli a meithrin gallu;

- gweithio gyda rhieni a theuluoedd gan gynnwys sesiynau galw heibio a hyfforddiant;
- penderfynu ynghylch anghenion disgyblion a pharatoi cynllun ymyrraeth;
- cynorthwyo'r ysgol a'r staff i ddiwallu anghenion disgyblion;
- cynorthwyo â'r trefniadau ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd;
- prosiectau ymchwil a gwerthuso;
- ymyrraeth therapiwtig;
- datblygu hyfforddiant, gan gynnwys datblygiad staff;
- datblygu pecynnau cymorth pwrpasol ar sail anghenion ysgolion unigol.

Y MANTEISION I'CH YSGOL CHI

Bydd y gwasanaethau'n adeiladu ar gysylltiadau proffesiynol da a gwybodaeth arbenigol am eich ysgol. Mae'r holl seicolegwyr addysgol wedi'u cofrestru â'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) ac yn gweithio'n ôl safonau proffesiynol Cymdeithas Seicolegol Prydain. Mae seicolegwyr addysg cymwysedig yn goruchwylio holl waith y cynorthwywyr seicoleg addysg a seicolegwyr addysg dan hyfforddiant sy'n dilyn cwrs doethuriaeth.

- gall ysgolion gynllunio ar gyfer unrhyw alw tebygol am y gwasanaeth;
- mae aelodau o'r gwasanaeth seicoleg addysg ar gael i ymgymryd ag amrywiaeth ehangach o waith a all fod yn fwy addas ar gyfer anghenion penodol yr ysgol;
- mae cyfle i weithio gyda'r gwasanaeth seicoleg addysg ar lefelau gwahanol gan gynnwys y lefel strategol a lefel grŵp;
- mae'r gwasanaeth seicoleg addysg yn gallu canolbwyntio at godi cyrhaeddiad disgyblion, gan gynnwys Plant sy'n Derbyn Gofal a grwpiau agored i niwed;
- mae'n haws cael gafael ar seicolegydd addysg;
- gall y gwasanaeth ymateb yn fwy hyblyg i anghenion penodol;
- mae ysgolion yn meithrin dealltwriaeth well o agweddau mwy amrywiol o waith seicoleg addysg;
- mae mwy o gyfleoedd i ymgymryd â gwaith therapiwtig;
- caiff amser ei ddefnyddio'n fwy effeithlon;
- gall ysgolion ofyn am gymorth gyda datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) penodol;
- gall y gwasanaeth gynnig cymorth seicolegol i gyrff eraill.

COSTAU

Y gost fesul sesiwn am gymorth gan seicolegydd addysg fel rhan o'r gwasanaeth masnachol fydd £250 (ymweliad hyd at 3 awr o hyd). Mae hyn yn cynnwys costau gweinyddu, er enghraifft, ysgrifennu adroddiadau, paratoi deunyddiau etc. Y gost fesul awr am amser seicolegydd addysg fydd £100. Gellir trafod gostyngiad os byddwch yn prynu nifer o sesiynau'r un pryd. Y gost fesul awr fydd £70.

CYSYLLTWCH Â

- Dr Lorraine Silver, Prif Seicolegydd Addysg
- Kathryn Morgan, Uwch Seicolegydd Addysg

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel,
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB

Ffôn: (01656) 815256

E-bost: Lorraine.silver@bridgend.gov.uk neu Kathryn.morgan@bridgend.gov.uk